# Canllaw ar gyfer cadw pellter cymdeithasol

**Mae hyn y berthnasol i unrhyw un sy'n dod i mewn i'r lleoliad am unrhyw reswm, gan gynnwys gweithwyr ar bob lefel. Mae hynny er mwyn sicrhau, cyn belled ag y mae'n ymarferol ac yn rhesymol, y bydd ymrwymiad i warchod pawb sy'n dod i mewn i, ac sy'n gweithio yn, yr adeilad.**

Dyma ychydig o bwyntiau i'w cadw mewn cof

**Staff**

1. Cynnal Asesiad Risg COVID-19. Cyn ail ddechrau gwaith ar y safle, dylech sicrhau diogelwch y gweithle trwy gynnal asesiad risg a rhoi gwybod i'ch gweithwyr beth yw canlyniadau'r asesiad risg hwnnw.
2. Annog gweithwyr i gerdded i'r gwaith os yn bosibl a darparu mannau parcio ychwanegol ar gyfer beiciau er mwyn i ragor o weithwyr allu beicio i'r gwaith.
3. Ni ddylai gweithwyr defnyddio cludiant cyhoeddus os yn bosibl.
4. Defnyddiwch arwyddion i atgoffa gweithwyr am y canllawiau cadw pellter cymdeithasol.
5. Amrywio amseroedd cyrraedd ac ymadael a rhoi marciau ar y llawr er mwyn i weithwyr gadw at y pellter a argymhellir ar hyn o bryd wrth ddod i mewn i'r adeilad os ydyn nh'wn cyrraedd tua'r un pryd â rhai eraill.
6. Darparu diheintydd dwylo i'w ddefnyddio cyn ac ar ôl dod i mewn i'r adeilad.
7. Cyfyngu ar symud rhwng ardaloedd yn y lleoliad.
8. Amrywio amser egwyl ac annog gweithwyr i ddod â'u diod a'u bocys bwyd eu hunain rhag defnyddio'r gegin. Efallai bydd yn rhaid cyfyngu ar ddefnyddio'r gegin i un person ar y tro er mwyn cynnal pellter cymdeithasol.

**Rhieni ac Ymwelwyr**

1. Defnyddiwch arwyddion clir er mwyn sicrhau fod ymwelwyr yn dilyn yr un weithdrefn â'r staff.
2. Defnyddiwch arwyddion i atgoffa ymwelwyr am y canllawiau cadw pellter cymdeithasol, fodd bynnag, dylech gyfyngu ar ymwelwyr a dim ond derbyn y rhai hanfodol, megis pobl cynnal a chadw. Os yn bosibl, dylid gofyn i'r ymwelwyr hyn i ddod yno pan fydd y lleoliad wedi cau i blant.
3. Cyflwyno man aros diogel i rieni er mwyn iddyn nhw allu cadw'r pellter cymdeithasol priodol.
4. Cyfyngu ar symud rhwng ardaloedd yn y lleoliad.
5. Cyfyngu ar gyswllt wyneb i wyneb gyda'r rhieni yn ystod trosglwyddo. Defnyddiwch e-bost i rannu dyddiaduron dyddiol a chynnig galwadau fideo ble bo'n bosibl er mwyn rhoi adborth i rieni.

Gallai **canllawiau'r Llywodraeth** ynghylch cadw pellter cymdeithasol newid felly, dylech adolygu'r gweithdrefnau hyn yn rheolaidd.

02920 451242 info@earlyyears.wales earlyyears.wales / blynyddoeddcynnar.cymru

Early Years Wales 2018 / Blynyddoedd Cynnar Cymru 2018. Registered in Wales / Gofrestredi yn Cymru.
Registered Office Unit 1, Coopers Yard, Curran Road, Cardiff CF10 5NB / Swyddfa Gofrestredig: Uned 1, Iard y Cowper, Ffordd Curran, Caerdydd CF10 5NB
Company limited by guarantee / Cwmni cyfyngedig trwy warant 3164233. Charity / Elusen 1056381
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.
Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi

Gorffennaf 2020